Datganiad i'r wasg
Press Release

28 Mai 2014
28 May 2014



Pobl ifanc Cymru a Phatagonia yn cynhyrchu Sioe Gerdd Theatrig

Heddiw mae Urdd Gobaith Cymru mewn partneriaeth â Theatr Pobl Ifanc Clwyd Theatr Cymru yn lansio yn swyddogol cynllun i wahodd 15 o aelodau'r Urdd yma yng Nghymru a phump o Batagonia i berfformio cynhyrchiad a fydd yn portreadu'r siwrne i Batagonia ar y Mimosa yn 1865.

149 mlynedd yn ôl i heddiw (dydd Mercher Mai 28ain) fe deithiodd tua 153 o Gymry ar y Mimosa i chwilio am fywyd gwell yn y Wladfa.

Flwyddyn nesaf, i ddathlu 150 o flynyddoedd ers i'r Cymry cyntaf ymfudo o Lerpwl i Batagonia ar y Mimosa, bydd Urdd Gobaith Cymru'n cydweithio mewn partneriaeth â Clwyd Theatr Cymru a'i hadain theatr ar gyfer pobl ifanc, Cyngor Celfyddydau Cymru a chydweithio'n agos gyda Mentrau Iaith Cymru, Menter Patagonia a Theithiau Tango wrth fynd ati i greu cynhyrchiad arbennig iawn.

Bydd y darn gwefreiddiol hwn o theatr yn seiliedig ar gynyrchiadau hynod lwyddiannus y cyfarwyddwr a'r awdur llwyddiannus **Tim Baker** o "The Spirit of the Mimosa" a "Patagonia - Yr Hirdaith/The Long Journey."

Yn ôl **Siân Rogers**, Cyfarwyddwr Ieuenctid a Chymuned yr Urdd: "Y bwriad ydi cynhyrchu sioe gerdd theatrig gyda phobl ifanc o Gymru a Phatagonia, gan ailadrodd straeon y teuluoedd a adawodd eu cartrefi yng Nghymru i gychwyn ar siwrnai anodd a pheryglus i sefydlu bywyd newydd iddyn nhw eu hunain a'u teuluoedd ym Mhatagonia."

"Yn sgil hynny ein gobaith fydd meithrin cysylltiadau diwylliannol ac ieithyddol cadarn rhwng pobl ifanc Cymru a'u cyfoedion ym Mhatagonia," ychwanegodd.

Bydd y ffurflenni cais i ymgeisio i fod yn un o'r pymtheg o Gymru i gael eu dewis ar gyfer y cynhyrchiad ar gael yr wythnos hon yn Eisteddfod yr Urdd . Cynhelir y clyweliadau ddiwedd yr Haf.

Os byddwch yn un o'r rhai lwcus i gael eich dewis, bydd yn gyfle unigryw i weithio gyda thîm creadigol proffesiynol i greu cynhyrchiad cyfrwng y Gymraeg a fydd yn cael ei lwyfannu am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru fis Awst 2015.

Bydd y perfformwyr ifanc hefyd yn cael y cyfle i deithio i Batagonia ym mis Awst i berfformio mewn gwahanol leoliadau. Bydd pobl ifanc Patagonia hefyd yn rhan o'r sioe gyda'r Cyfarwyddwr Tim Baker a'r Cyfarwyddwr Cerdd **Dyfan Jones** yn teithio i Batagonia i ymarfer a pharatoi ar gyfer y sioe gan alluogi'r criw i gymryd rhan yn yr agweddau cerddorol o'r stori. Bydd yr elfen hon yn cael ei ariannu gan yr aelodau eu hunain a'i chefnogi gan raglen yr Urdd.

Ychwanegodd Sian Rogers bod y cynllun yn un arbennig ac yn cynnig cyfle i bobl ifanc fod yn rhan o gynhyrchiad unigryw, gan deithio i Batagonia a chydweithio gyda thîm proffesiynol.

"Dwi'n gyffrous iawn am gael y cyfle i gydweithio gyda Tim Baker a theatr ar gyfer pobl ifanc Clwyd Theatr Cymru ar y prosiect arloesol yma. Mi fydd y daith yn ychwanegol i daith arferol

yr Urdd i Batagonia ac yn brofiad gwych a gwefreiddiol i'r disgyblion gaiff eu dewis i gymryd rhan yn y cynhyrchiad."

Mae Tim Baker, cyfarwyddwr ac awdur llwyddiannus hefyd yn gyffrous ac yn frwdfrydig iawn am y gwaith.

"Dwi'n edrych ymlaen at gael cydweithio gyda phobl ifanc o'r ddwy wlad i ddathlu'r 150 mlynedd ers taith y Mimosa, a hefyd i Theatr Pobl Ifanc Clwyd Theatr Cymru gael y cyfle i chwarae rhan allweddol yn y dathliad yma."

"Mae'n rhoi'r cyfle i Theatr Pobl Ifanc Clwyd Theatr Cymru i roi cyfraniad allweddol a chodi ymwybyddiaeth bobl ifanc Cymru a Phatagonia o'i diwylliant a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg," ychwanegodd Tim Baker.

Diwedd

Young people of Wales and Patagonia join to perform unique production

Today Urdd Gobaith Cymru in partnership with Clwyd Theatr Cymru Theatre for Young People is officially launching a project to invite 15 members of the Urdd in Wales and five from Patagonia to perform a production that will portray the journey of the first Welsh emigrants to Patagonia on the Mimosa in 1865.

149 years ago today on 28 May 1865, the Mimosa sailed with a group of about 153 passengers from Liverpool to Patagonia in South America in search of a better life and to establish a Welsh colony which would preserve the Welsh community and culture.

Next year to celebrate 150 years since the first Welsh emigrants travelled from Liverpool to Patagonia, Urdd Gobaith Cymru in partnership with Clwyd Theatr Cymru Theatre for Young People, the Arts Council of Wales plus with support from Mentrau Iaith, Menter Patagonia and Teithiau Tango will create a very special production.

The thrilling piece of theatre will be based on the award winning Director and Writer, **Tim Baker**'s hugely successful productions "The Sprit of Mimosa" and "Patagonia - Yr Hirdaith/The Long Journey."

Siân Rogers, Youth and Community Directorfor the Urdd in North and Mid Wales said: "The aim is to produce a musical with young people from Wales and Patagonia re-telling the stories of the families who left their Welsh home to embark on a dangerous journey to set up a new life in Patagonia."

"This will be a once in a lifetime opportunity, to perform a Welsh language production whilst forging strong cultural and linguistic links between young people of Wales and their peers in Patagonia," she added.

The application forms to apply for one of the chosen 15 throughout Wales, will be available at the Eisteddfod this week in Bala, with auditions held at the end of the summer.

A core company of 20 young people will be chosen and it will be a unique opportunity guided by a professional creative team to produce a Welsh language production performed for the first time at the National Eisteddfod in August 2015.

The second element of this project is to take the company of young performers to Patagonia in August to perform in different venues. This element will be funded by the young people themselves and supported through the Urdd programme.

The young people of Patagonia will also be part of the production with the director Tim Baker and the composer and musical director, **Dyfan Jones** travelling to Patagonia to rehearse and prepare individuals for the show.

Sian Rogers added: "This is a once in a lifetime opportunity for the young people of Wales and Patagonia to work with a specialised creative team, to travel to Patagonia and to be part of such a unique production."

"I am excited about the partnership and am looking forward to working with Tim Baker and Clwyd Theatr Cymru Theatre for Young People on this innovative project. This trip will be additional to the Urdd to Patagonia trips that are held in October and will be a fantastic experience for the young people that will be chosen to be part of the production."

The director and successful author, Tim Baker is also excited and enthusiastic about the project.

"I am incredibly excited at the prospect of being able to mark this great anniversary with and through young people from both countries and in particular that Clwyd Theatr Cymru Theatre for Young People will be playing such a prominent role in this celebration."

"It gives Clwyd Theatr Cymru Theatre for Young People a chance to make a major contribution to the awareness of young people in both Patagonia and Wales of their heritage and the importance of the Welsh language."

ends

Cyswllt i'r wasg / For further information contact:

Ffion Clwyd Edwards, pi-ar, **01745 550123 / ffion@pi-ar.co.uk / 07702 048184**
Mali Thomas, **02920 635 695 / mali@urdd.org**